**COUNTY BOROUGH OF BLAENAU GWENT**

**REPORT TO:** **THE CHAIR AND MEMBERS OF THE PWYLLGOR ARCHWILIO**

**SUBJECT:** **PWYLLGOR ARCHWILIO - DYDD MAWRTH, 19 TACHWEDD 2019 DYDD MAWRTH, 19 TACHWEDD 2019**

**REPORT OF:**

---

PRESENT: P. WILLIAMS (CADEIRYDD)

Councillors S. Healy (Is-gadeirydd)
G. Collier
M. Cross
L. Elias
J. Hill
J. Holt
L. Parsons
K. Rowson
B. Summers
S. Thomas
J. Wilkins

WITH:

| ITEM | SUBJECT | ACTION |
|---|---|---|
| **No. 1** | **CYFIEITHU AR Y PRYD**<br><br>Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. | |
| **No. 2** | **YMDDIHEURIADAU**<br><br>Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb ar gyfer y Cynghorwyr H. Trollope a L. Winnett. | |

| | | |
|---|---|---|
| | | |
| **No. 3** | **<u>DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU</u>**<br><br>Adroddwyd y datganiad buddiant dilynol:<br><br>Cynghorydd L. Parsons - *<u>Eitem Rhif 8 – Swyddfa Archwilio Cymru – Darparu gyda Llai - Gwasanaethau Hamdden</u>* | |
| **No. 4** | **<u>PWYLLGOR ARCHWILIO</u>**<br><br>Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 10 Medi er pwyntiau cywirdeb.<br><br>PENDERFYNWYD cadarnhau'r cofnodion. | |
| **No. 5** | **<u>DATGANIAD LLYWODRAETHIANT BLYNYDDOL</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Prif Swyddog Adnoddau.<br><br>Cyflwynodd y Rheolwr Archwilio y Datganiad Llywodraethiant Blynyddol terfynol ar gyfer 2018/19, sy'n rhoi asesiad o effeithlonrwydd trefniadau llywodraethiant yr Awdurdod. Siaradodd y Swyddog am yr adroddiad a thynnodd sylw at bwyntiau ynddo.<br><br>Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod, cadarnhaodd y Swyddog y caiff unrhyw argymhellion ar gyfer datblygu eu gwneud yn y datganiad ac y cânt eu gweithredu drwy gydol y flwyddyn ac y caiff cynnydd ar argymhellion ei gynnwys yn Natganiad Llywodraethiant Blynyddol 2019/20.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a chymeradwyo a mabwysiadu'r Datganiad Llywodraethiant Blynyddol. | |
| **No. 6** | **<u>ADRODDIAD BLYNYDDOL OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU 2018/19</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Pennaeth Cydymffurfiaeth Cyfreithiol a Chorfforaethol.<br><br>Cyflwynodd y Cyfreithiwr yr adroddiad sy'n hysbysu'r Pwyllgor Archwilio am berfformiad y Cyngor yng nghyswllt cwynion i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Siaradodd am yr adroddiad a thynnu sylw at bwyntiau ynddo a dywedodd ei fod yn | |

| | | |
|---|---|---|
| | falch i ddweud mai Cyngor Blaenau Gwent sydd â'r nifer isaf o gwynion gwasanaeth a dderbyniwyd gan yr Ombwdsmon yng Nghymru.<br><br>Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod, esboniodd y Swyddog fod y Cyngor wedi mabwysiadu Polisi Datrysiad Lleol lle byddai Pennaeth Cydymffurfiaeth Cyfreithiol a Chorfforaethol yn ceisio datrys unrhyw broblemau cyn iddynt gynyddu i weithdrefnau ffurfiol.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a bod y Pwyllgor Archwilio yn cydnabod fod y broses ar gyfer monitro cwynion yn gadarn a bod yr wybodaeth perfformiad a roddwyd yn adlewyrchu'r arferion hynny. | |
| **No. 7** | **<u>ADRODDIAD CYNNYDD CYNLLUN ARCHWILIO - GORFFENNAF 2019 I MEDI 2019</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Prif Swyddog Adnoddau.<br><br>Cyflwynodd y Rheolwr Archwilio yr adroddiad sy'n diweddaru'r Pwyllgor Archwilio ar y cynnydd ar y Cynllun Archwilio Mewnol ar gyfer y cyfnod 1 Gorffennaf i 30 Medi 2019. Siaradodd y Swyddog am yr adroddiad a thynnu sylw at bwyntiau ynddo.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a nodi'r cynnydd ar weithgareddau ar gyfer y cyfnod 1 Gorffennaf i 30 Medi 2019. | |
| **No. 8** | **<u>SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU - DARPARU GYDA LLAI - GWASANAETHAU HAMDDEN</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Prif Swyddog Masnachol.<br><br>Cyflwynodd y Prif Swyddog Masnachol yr adroddiad sy'n amlinellu canfyddiadau adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru ar Darparu gyda Llai - Gwasanaethau Cyhoeddus a adroddwyd ym mis Mai 2018.<br><br>Aeth y Swyddog drwy'r adroddiad a thynnu sylw at bwyntiau ynddo. Cadarnhaodd y cafodd y cynigion ar gyfer gwella eu derbyn a'u cynnwys yn ail gyfnod yr adolygiad sy'n mynd rhagddo ar y gwasanaethau Hamdden a Diwylliant. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Cyfeiriodd Aelod at dudalen 95 adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru a ddywedodd nad oedd yr adolygiad yn cynnwys craffu amserol ac ystyriol gan Aelodau ac yn gofyn sut y bwriedir gwella'r broses yn y dyfodol.<br>Mewn ymateb, cadarnhaodd y Swyddog ers cyfnod cyntaf yr adolygiad, bod y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymunedol wedi sefydlu Gweithgor Aelodau ac y rhoddwyd adroddiad i'r Pwyllgor ar ganlyniadau'r gwaith hwnnw. Mae adroddiadau ar y cyfnod cyfredol yn parhau i gael eu hadrodd drwy'r broses ddemocrataidd.<br><br>Cyfeiriodd yr Aelod at y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymunedol a gynhaliwyd yr wythnos flaenorol pan ystyriwyd dau ddarn sylweddol o waith, sef y Strategaeth Rheoli Gwastraff ac Ailgylchu a'r Achos Busnes Strategol ar gyfer datblygu ail Ganolfan Gwastraff Cartrefi ac Ailgylchu (HWRC). Dywedodd fod y ddau yn faterion dadleuol sy'n effeithio ar y Fwrdeistref Sirol a mynegodd bryder mai dim ond nifer fach o Aelodau a gafodd gyfle i graffu a gwneud penderfyniad ar y materion strategol hyn. Dywedodd fod Arweinydd y Cyngor ym mis Mai 2017 wedi rhoi sicrwydd y byddid yn galw Cydbwyllgorau i ystyried eitemau o'r fath sy'n effeithio ar y Cyngor, tebyg i'r Adolygiad o'r Gwasanaethau Hamdden a mynegodd bryder nad yw hyn yn digwydd ar hyn o bryd, gan olygu mai dim ond tua 48% o Aelodau sydd â mewnbwn mewn materion pwysig.<br><br>Mewn ymateb, dywedodd Pennaeth Llywodraethiant a Phartneriaethau mai'r unig gydbwyllgorau a ffurfiwyd gan Gyfansoddiad y Cyngor oedd Diogelu a Monitro'r Gyllideb. Dywedodd fod angen cydbwysedd am gylch gorchwyl Pwyllgorau Craffu a'r rhesymeg dros 'agor' materion neilltuol i bob Aelod. Fodd bynnag, dywedodd pe byddai Pwyllgor Craffu yn cael ei 'agor lan' i bob Aelod, na fyddai yn Gyd-bwyllgor gyda chyfansoddiad yn yr un ffordd â Diogelu a Monitro'r Gyllideb, ac mai dim ond Aelodau'r Pwyllgor cynnal fyddai â hawliau pleidleisio.<br><br>Dywedodd yr Aelod ei fod yn deall y broses ond lle mae galw sylweddol gyda darnau mawr o waith yn effeithio ar y Cyngor, dylid cynnull pob Pwyllgor Craffu i Aelodau, yn unol ag ymrwymiad yr Arweinydd ym Mai 2017.<br><br>Dywedodd Aelod arall fod y Swyddog wedi awgrymu y byddid yn rhoi adroddiad ar ail gam yr Adolygiad o'r Gwasanaethau Hamdden i'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymunedol i Aelodau ei ystyried. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Ychwanegodd Aelod arall fod angen dull gweithredu mwy 'cydlynol' ac y dylid sefydlu Gweithgor Trawsbleidiol ynghyd â Swyddogion i gwrdd gyda Bwrdd yr Ymddiriedolaeth Hamdden.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn cynnwys adolygiad a chanfyddiadau Swyddfa Archwilio Cymru ar Darparu gyda Llai - Gwasanaethau Hamdden a chymeradwyo'r Ymateb Rheolaeth, gan ei fod yn rhoi sicrwydd y byddai'r cynigion ar gyfer gwella yn cael eu cymeradwyo'n llawn. | |
| **No. 9** | **ADRODDIAD BLYNYDDOL OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU 2018/19**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Pennaeth Llywodraethiant a Phartneriaethau.<br><br>Cyflwynodd y Pennaeth Llywodraethiant a Phartneriaethau yr adroddiad sy'n amlinellu canfyddiadau adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru ar Safbwynt Defnyddwyr Gwasanaeth: Ymgysylltu â'r Gymuned a adroddwyd ym Mai 2019. Rhoddir Ymateb Rheolaeth y Cyngor yn Atodiad 2 a chafodd yr adroddiad hefyd dderbyniad cadarnhaol gan y Pwyllgor Craffu Trosolwg Corfforaethol.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a nodi cynnwys adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru a'r canfyddiadau ar Safbwynt Defnyddwyr Gwasanaeth: Ymgysylltu â'r Gymuned ac Ymateb Rheolaeth y Cyngor. | |